Llais Llandyrnog

Awst 2020 – Cyfrol 5 – Rhifyn 11

Y gystadleuaeth creu bwganod brain

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu – roedd pob bwgan brain yn wych. Diolch yn fawr am yr holl gefnogaeth a'r cyfraniadau tuag at Gyfeillion Ysgol Bryn Clwyd.

Ray Perrin

Yr enillwyr

1af: Bwgan brain #8 (Mr Bean)

2il Bwgan brain #1 (Dyn y Sioe Fawr)

3ydd Bwgan brain #13 (Y Dyn Pric)

Beth am dynnu lluniau hardd, i'n sioe fach rithiol, ewch i'r ardd!
(*gweler tudalen 2*)

Cyfarwyddwyr prysur

Llongyfarchiadau i Non Haf a Daniel Lloyd am eu gwaith cyfarwyddo yn ystod y Cyfnod Clo. Dan nawdd cwmni theatr *The Other Room*, fel rhan o'i rhaglen i gefnogi cyfarwyddwr newydd yn ystod y cyfnod clo, bu Non, Hafod y Bryn yn cyfarwyddo monolog gafaelgar ar y we o'r enw *The Motherhood* gan Sophie J Warren. Fe'i perfformiwyd gan Mali Tudno Williams (isod).



O dan amgylchiadau rhyfedd y pandemig eleni, ac fel rhan o arlwy Tir Na nÓg i ysgolion Cymru, penderfynwyd cynhyrchu drama radio yn lle'r cynhyrchiad llwyfan arferol. Dyma'r tro cyntaf mewn 30 mlynedd i hyn ddigwydd, a bydd yn ffrydio i ysgolion yn yr Hydref, dan gyfarwyddyd Daniel. Enw'r ddrama yw *Arandora Star* (awduron Mali Tudno Williams a Geinor Styles) ac mae hanes diddorol a thrist i ystyr y teitl.

Llong oedd yr *Arandora Star* a suddodd ar Orffennaf yr ail, 80 mlynedd yn ôl yn ystod yr ail Ryfel Byd. Ar ei bwrdd roedd Eidalwyr ac Almaenwyr oedd yn byw'n ddedwydd ym Mhrydain Fawr nes i'r rhyfel ddechrau. Casglwyd nhw ynghyd, a'u trin fel carcharor-



ion o hynny ymlaen. Roedden nhw wedi gadael eu siopau a'u cartrefi, eu perthnasau a'u ffrindiau, ac ar eu ffordd i garchar yng Nghanada. Boddwyd tua 143 o Almaenwyr a 470 o Eidalwyr. Bydd y ddrama'n sôn fwyaf am 53 o Eidalwyr Cymreig a foddwyd yn y drychineb.

Pytiau newyddion y pentre

Cydymdeimlwn â Robbie a Zoe, Nant Lewis Alyn o golli ei Mam, sef Maureen Owen, fu farw'n ddiweddar ac a gladdwyd ym mynwent Llandyrnog 7fed Gorffennaf. Hefyd â theulu Richard Jones, Hafod – neu Dick Deryn Du, o roi ei enw mwy cyfarwydd i drigolion Llandyrnog.

Pob dymuniad da i Beth, Pen y Bryn ar ei swydd fel Athrawes Gemeg yn Ysgol Uwchradd Penweddig, Aberystwyth.

Pen-blwydd hapus hwyr i David Plumb a fu'n dathlu ei ben-blwydd yn 50 oed yn ddiweddar. Pob dymuniad da, a diolch eto am gadw'n ffyrdd yn lân, David!

Llongyfarchiadau i Angharad Williams, Plas Bennett, ar ennill gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn economeg o Brifysgol Reading.

Diolch: Dymuna Mair a'r teulu ddiolch yn fawr am y cardiau, galwadau ffon a phob cefnogaeth a gweithred a gawsom yn ymadawiad Robin yn ddiweddar. Mae'r cyfan wedi bod yn gymorth mawr i ni mewn amser anodd.

Sioe amdani!

Gan na fydd sioe flodau a chynnyrch eleni, dyma wahoddiad gan *Llais Llandyrnog Voice* i chi anfon lluniau o'ch gerddi, eich blodau, eich llysiau neu eich ffrwyth atom – unrhyw beth rydych chi'n falch ohono. Byddwn yn cynnwys y rhain yn rhifyn mis Medi. Ewch ati unwaith mae'ch cynnyrch ar ei orau ac anfonwch eich lluniau at **llandyrnognews@gmail.com** erbyn 15 Awst. Os nad oes gennych chi'r adnoddau i wneud hyn, cysylltwch ag Anwen ar 07340 271051 i drefnu i dynnu llun. Os ydy'ch gardd yn werth ei gweld, ond nid ydych am ddatgelu'ch lleoliad, mae hynny'n iawn.

Yn anffodus, fydd 'na ddim gwobrau, ond gan fod y cyfnod clo wedi bod yn gyfle i bobl dreulio cryn amser yn yr ardd, mae'n siŵr bod sawl golygfa hardd yn y pentre! Bydd nifer cyfyngedig o rifyn mis Medi yn cael eu hargraffu mewn lliw.

Cywiriad: Enw mab Felix ac Amy, wrth gwrs, yw Felix Lawford, nid Langford, fel ag y bu yn rhifyn mis Gorffennaf. Gobeithiwn y bydd y rhieni hapus yn derbyn ein hymddiheuriad a dymunwn yn dda i'r teulu bach.

Aelodau'r Pwyllgor:
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler, Jack Crowther, Bryn Davies (tanysgrifiadau a hysbysebion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cyfieithwyr), Anne Rowley -Williams, Rhian Jones, Margaret a Rod Williams, Sian Gwyn-Ifan (cyfieithydd).
Anfonwch eich newyddion a'ch erthyglau at llandyrnognews@gmail.com

Nodiadau o Blas Ashpool

Heddiw mae'r niwl a'r glaw yn cau amdanon ni ac yn troi pob golygfa'n balet peintio dyfr-llyd ac annifyr. Ac wrth gwrs, heddiw oedd y diwrnod mawr i ni dyrru i lan y môr!

Gan ein bod fel teulu o hyd yn griw go obeithiol, i ffwrdd â ni'n hwyliog, er gwaetha'r rhagolygon drwg, gan lenwi'r car efo'r offer glan-y-môr arferol, a'r plant, a'r cŵn!

Hanner awr ar ôl cychwyn, roedd y sgwrsio cyffrous wedi troi'n gwynion – 'Yden ni bron â chyrredd?' Pryd gawn ni fyta'n picnic?' ayb.

Ond, fel pobol sy wedi arfer efo anwadalwch tywydd y wlad 'ma, ymlaen â ni!

Wrth barcio yn ein lle arferol a dechre dadlwytho, roedd distawrwydd rhyfedd yno, ar wahân i sŵn y tonnau a chri'r gwylanod a'r bioden-fôr, a'r glaw diddiwedd! Dim cwch, dim jetsgi, dim cysgodion gwynt plastig, dim pobol yn crwydro ar hyd y tywod melyn.

Dyma ni'n swatio'n ddigon di-hwyl yn ein 'cwt' bach i ddau – wyth oedolyn, pump plentyn a dau gi!! Doedd y tywydd ddim yn mynd i gael y gorau ohonon ni!! Felly, tegell ymlaen a phaned o de amdani. Aeth y plant hynaf a'r cŵn yn syth am y creigiau i chwilota am fân greaduriaid (diolch byth).

Yfwyd y te, ac aeth y genhedlaeth iau, dewr i nofio yn y môr. Bu nain bryderus yn gwylio'r nofwyr gyda'i sbienddrych, er bod y lle'n holl-ol saff, ac ymdawelodd popeth. Yn wir, drwy help y cotiau a'r blancedi, roedd rhywun yn dechrau mwynhau glan y môr gwag!

Roedd hi'n dal i fwrw, ac allen ni ddim gweld y golygfeydd arferol o'r môr a'r mynyddoedd yn ymestyn ymhell – ond doedd dim ots. Roedden ni wedi cyrraedd, roedden ni'n rhydd, roedd y plant yn eu helfen, roedd misoedd y 'cyfnod clo' ymhell, bell yn y gorffennol. Diwrnod allan perffaith wedi'r cwbwl.

Gobeithio bod pob un ohonoch chi wedi cael rhyw sbel fach o ryddid fis yma.

Tan y tro nesaf, mwynhewch anturio a'r garddio wrth gwrs.

Fiona Bell

Siop Gymunedol Pwllglas

Er mwyn iechyd a diogelwch ein cwsmeriaid a staff, ddaru ni newid y drefn a rhoi bwrdd tu allan i ddrws ffrynt y Siop a nôl y nwyddau i'n cwsmeriaid ein hunain. Roedd 99% o'r cwsmeriaid yn hapus iawn gyda'r drefn, ond mae wastad un yn does?

Ar ôl i Boris gyhoeddi'r cyfnod clo ddaru pethau newid dros nos a llawer mwy yn cymryd y sefyllfa o ddifri'. Wrth fod llawer o'n gwirfoddolwyr ni wedi ymddeol, bu rhaid cael sgwrs â hwy a pherswadio rhai ei fod yn saffach iddynt aros adre am gyfnod. Wedyn, cysylltu â Myfyrwyr fu'n gwneud profiad gwaith yn y Siop, a gofyn a oedd modd iddyn nhw ddod i helpu yn y Siop – a chwarae teg cawsom ymateb anhygoel. Roedd rhaid i ni newid oriau agor y Siop am fod y gofyniadau arnom lawer yn fwy a llai o staff ar gael a hefyd lot mwy o baratoi archebion at y diwrnod wedyn. Felly newidiwyd yr oriau o Ddydd Llun i Ddydd Gwener 8–2pm, Sadwrn 9am–12pm a Sul 9–11am.

Penderfynwyd mynd â nodyn o gwmpas tai'r pentre a rhoi ar dudalen Facebook y Siop ein bod yma i helpu'r gymuned ac yn fodlon mynd â siopa draw i bobol oedd yn bryderus ac yn fregus eu hiechyd. Wedyn, rhoi cais am gymorth gan bobol i helpu ni wneud hyn. Fe gawsom lawer yn cysylltu â ni ac yn hynod ddiolchgar am y gwasanaeth.

Fe wnaeth Syrjeri Plas Meddyg gysylltu â ni a gofyn a fyddem yn fodlon derbyn presgripsiynau i drigolion ardal Pwllglas er mwyn lleihau nifer y bobol oedd yn mynd i'r syrjeri. Felly bob dydd Mercher, mae rhywun yn dod â nhw draw i ni.

Roeddem yn ymwybodol fod y canolfannau garddio ar gau a llawer yn ysu am gael gwneud eu basgedi crog a'u potiau. Felly, cysylltu â busnes lleol, a gofyn a oedd bosib i ni gyd-weithio â nhw a gwerthu planhigion a chompost, a defnyddio cyntedd Neuadd Pwllglas i neud hyn. Finne braidd yn bryderus o ordro palet o 40 o fagiau compost ar y cychwyn, ond yn archebu 4 palet erbyn y diwedd a 160 o fagiau! Fe wnaethom ni werthu nifer fawr iawn o blanhigion, a'r cwsmeriaid yn hapus iawn o gael garddio yn ystod y tywydd bendigedig gawsom ni yn ystod mis Mai.

Roedd archebion bara, llaeth, llysiau, ffrwythau, cig, papurau newydd, cacenni wedi treblu. Roedd prinder blawd, siwgwr, pasta a phapur tŷ bach am gyfnod. Roeddwn i'n meddwl llawer yn ystod y cyfnod yma am ymadrodd mae fy nhad yn dweud yn amal *'mewn prinder mae gwerth*'.

Braf ydy cael dweud hefyd ein bod yn gwerthu Pys Pêr hyfryd John ac Olwen Rowlands a hefyd blodau hyfryd gan Sioned Rowlands, Pont y Tŵr.

Er gwaetha pryderon ar brydiau, mae'n rhaid cyfaddef fod rhywun yn gweld pwysigrwydd siopau bychain yn y Pentrefi, fel Siop Gymunedol Pwllglas, ac yn falch o fod yno i gynnig gwasanaeth pwysig, yn enwedig ar adeg anodd fel hon.

Rhian Jones

Siop Leol y Flwyddyn

Llongyfarchiadau i Rhian, un o'n plith ni yma (ail o'r dde) a'r staff ar ddarparu gwasanaeth gwych a gwerthfawr. Ewch i dudalen Facebook y siop: 'Siop Gymunedol Pwllglas Community Shop' i weld y cynnyrch gwych sydd ar werth yno.

Cyfnod clo llym yn Sbaen

Y peth olaf roedd Mark a finne'n ei ddisgwyl ar ôl symud i Sbaen ddiwedd Hydref 2019, oedd i'r llywodraeth gyhoeddi Cyfnod Argyfwng Llym bedwar mis a hanner yn ddiweddarach – Cyfnod Clo hir o dri mis ac wythnos. Roedd Cyfnod Clo llawn yma yn Sbaen yn golygu na allen ni fynd allan o gwbwl, ddim hyd yn oed am dro bach neu i ymarfer. Yr unig dro allen ni fynd o'r tŷ oedd i siopa, a dim ond un o bob cartref oedd yn cael gwneud hynny. Roedd presenoldeb yr heddlu ar y strydoedd a rhaid oedd dangos cerdyn adnabod a chyfiawnhau'r ffaith eich bod chi allan o'r tŷ.

Ar ôl saith wythnos yn y Cyfnod Clo llym yma, cyhoeddwyd y gallen ni fynd allan unwaith y diwrnod am ymarfer corff ac roedd slot amser i bob grŵp yn ôl yr oedran. Dim ond 1km allech chi fynd, ond yn lwcus i ni, roedden ni o fewn cyrraedd y môr!

Yn ystod y pandemig yma, rhaid deud bod llywodraeth Sbaen wedi creu argraff arna i, fel rhywun oedd newydd setlo mewn gwlad ddiarth – roedd hynny'n gysur roedd ei angen ar y pryd. Doedd yr heddlu'n cymryd dim lol, ac yn rhoi dirwy i unrhyw un fyddai'n torri'r rheolau.

Diolch byth bod gennym ardd braf, a golygfa hyfryd o'r traeth a Chraig Gibraltar. Ac wrth gwrs, roedd y tywydd cynnes yn help mawr drwy'r Cyfnod Clo.

Ond roedd hi'n anodd iawn ar lawer o drigolion yma yn Sbaen – mae mwy o bobl, ar gyfartaledd, yn byw mewn fflatiau yma nag yn unman arall yn Ewrop. Mae dwy ran o dair o'r boblogaeth yn byw mewn fflatiau o ryw fath a does dim hyd yn oed balconi gan y rhan fwyaf ohonynt. Roedd hi'n fendith wir na ddigwyddodd y Cyfnod Clo ym misoedd poetha'r haf a'r tymheredd yn codi i'r tridegau uchaf – dyna pryd bydd y Sbaenwyr yn dianc i lan y môr am 'chydig o ryddhad, fel arfer.

Ddaru'r ysfa hel gormod o bapur lle chwech ddim cyrraedd Sbaen, a chawsom ni ddim problem cael unrhyw nwyddau o gwbl, er mai bob pythefnos fydden ni'n mynd i siopa. Ar

Elen gyda'i mam a'i thad, Olwen a John, a Chraig Gibraltar yn y cefndir

ddiwedd bob bythefnos mi fydde'r fowlen ffrwythau'n edrych yn druenus iawn!!

Rydym ni'n byw 3 milltir o ffin Gibraltar, ac, wrth gwrs, roedd hwnnw ar gau adeg yr Argyfwng. Un fantais o fyw mor agos i'r ffin ydi'n bod ni'n gallu picio drosti i *Morrisons* yn Gibraltar i gael mymryn o gysur ambell i far Cadbury's a sos brown. Roedden ni'n colli'r teithiau siopa i Gibraltar, ond mi wnaeth hyn i ni hefyd orfod blasu mwy o fwyd lleol – ac maen nhw, i ddeud y gwir, cystal os nad gwell!

Daeth cyfnod Argyfwng Llym y wlad i ben ar 21ain Mehefin, a bywyd y 'normal newydd' sydd yma yn Sbaen erbyn hyn, ac eithrio gorfod cadw at y 'pellter cymdeithasol' a gorfod gwisgo mygydau bob amser mewn mannau cyhoeddus. Fodd bynnag, fel rydw i'n sgwennu hwn, mae rhanbarth Catalonia o Sbaen wedi gorfod mynd 'nôl 'dan glo' llawn unwaith eto. Mae'r llywodraeth yn bryderus am y cynnydd yn achosion Covid-19 yn yr ardal. Eto fyth, dydi'r llywodraeth ddim yn cymryd unrhyw nonsens os oes yna bryderon. Maen nhw'n gweithredu'n syth! Yn ffodus, mae'r ardal hon gryn bellter o le ryden ni'n byw yn Ne'r wlad, ond mae'n achosi tipyn o anesmwythyd a'r posibilrwydd o ail don yn cyrraedd gan fod y ffiniau wedi ailagor hefyd.

Y sialens nesa' wrth gwrs fydd Brexit! Yn lwcus, mi lwyddon ni i gael preswylfa lawn yma yn Sbaen cyn y pandemig. Ryden ni'n meddwl

Cyfnod clo llym: parhad

y bydd hi'n anodd iawn i Brydeinwyr gael preswylfa yma yn y dyfodol o achos Brexit. Pan gyrhaeddon ni yma, ein blaenoriaeth ni oedd cael y Cerdyn Gwyrdd (cerdyn preswylfa Sbaenaidd). Yn ffodus, mae Mike yn medru siarad Sbaeneg ac roedd hyn yn werthfawr iawn yn ystod y broses. Lle 'ryden ni'n byw lawr yn Ne *Andalucia*, dydi'r twristiaid ddim wedi dod o hyd i'r ardal brydferth hon eto! Golyga hyn, fodd bynnag, ei bod hi'n hanfodol siarad yr iaith er mwyn byw bywyd bob dydd yma. Mae fy Sbaeneg yn gwella'n raddol! Mi gychwynnais i wersi yng ngholeg Abergele tra'r oeddwn i'n byw yng Nghymru ac ers y pandemig rydw i'n cael dwy wers Sbaeneg yr wythnos ar-lein gan Goleg Llandrillo. Pe bai'r Sbaenwyr yn siarad yn arafach, byddwn i'n hapusach!

Cadwch yn saff bawb, ac rydw i'n gobeithio y bydd y tywydd braf yn dychwelyd i Gymru'n fuan. Rydw i'n ceisio anfon rhan o'r tywydd braf yma atoch chi bob dydd, dim ond er mwyn pys pêr Dad!!

Elen Rowlands

Ysgol Bryn Clwyd

Ar ddiwrnod ola'r tymor, dechreuodd disgyblion dosbarth y babanod wneud neidr arbennig iawn o gerrig, y tu allan i gatiau'r ysgol. Rydyn ni'n gobeithio y bydd ein cynlluniau a'n negeseuon hwyliog yn rhoi gwen ar wynebau pobl wrth iddyn nhw fynd heibio. Fe fyddem wrth ein bodd i unrhyw ffrindiau sydd heb fod yn yr ysgol ac unrhyw un arall o'r pentre gwych yma ymuno â ni ac ychwanegu carreg liwgar at ein neidr yr haf hon. Tybed faint fydd hyd y neidr pan fyddwn yn ôl yn yr ysgol ym mis Medi?

Yn anffodus, doedd hi ddim yn bosib cael gwasanaeth arbennig i'r disgyblion oedd yn gadael eleni, ond fe gafodd fideos eu gwneud o atgofion a negeseuon arbennig i Callum a Mya. Daeth ymwelydd arbennig i'r ysgol ar gyfer eu hegwyl olaf yn y bore.

Ysgol Bryn Clwyd

Mae disgyblion y Dosbarth Iau wedi bod yn gwneud tariannau lles, gan gydnabod y rhinweddau sydd gennym ynom i'n cadw ni'n ddiogel ac yn hapus, waeth beth sy'n digwydd o'n cwmpas ni.

Hefyd maen nhw wedi bod yn rhoi wynebau ar y coed o gwmpas y buarth ac yn creu helfa drysor i ddosbarth babanod y diwrnod canlynol.

Dod i adnabod... Ian Roberts

Beth ydi d'atgofion cynnar di, a'r cefndir?
Cefais i a fy mrawd Dylan ein magu yn Ninbych ym Mharc Myddleton cyn symud i'r Green yn Ninbych pan oeddwn tua 5 mlwydd oed. Wedyn symud i Glanywern Bennett yn Llandyrnog yn 13 i hen gartref Taid a Nain.

Atgofion cynnar o fynd i Glanywern Bennett i ffermio efo taid a nain, ac yn enwedig aros am wythnos gyfan adeg hanner tymor ym mis Chwefror pan oedd y defaid yn dod ag ŵyn.

Beth am ddyddiau ysgol a choleg?
Es i Ysgol Twm o'r Nant yn Ninbych, yna ymlaen i Ysgol Glan Clwyd. Dewisais fynd i Goleg Aberystwyth wedyn i astudio Economeg a dyna ble fues i am bedair blynedd hapus a phrysur (yn cymdeithasu!).

Ac ymlaen i fyd gwaith yn syth?
Do, es i weithio gyda'r BBC yng Nghaerdydd, yna i'r Swyddfa Gymreig yng Nghaerfyrddin, lle nes i gwrdd â'm gwraig, Ceri. Wedyn gweithio fel cyfrifydd gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Mowlem, ac erbyn hyn rwy'n gweithio fel Cyfarwyddwr Cyllid ym mhentref Portmeirion.

Sut beth ydi cael swyddfa mewn lle fel Portmeirion?
Mae'n le hynod o braf i weithio. Mae 'na staff arbennig o oddeutu 250 sy'n weithgar ac yn llawn ymroddiad i'w gwaith, eu hardal a'r Gymraeg. Mae lleoliad fy ngwaith yn bell ond wedi cyrraedd, mae'r lle'n fendigedig a medraf fynd am dro bob dydd amser cinio i fwynhau'r llonyddwch sydd yno.

Mae'n fusnes sy'n denu dros 220,000 o ymwelwyr bob blwyddyn gyda 71 o unedau aros – naill ai yn y gwesty neu yn y bythynnod hunan-arlwyo moethus.

Sut mae'r Covid 19 yn effeithio ar bopeth?
Ers cyfnod y COVID ym mis Mawrth, mae'r pentref wedi cau a minnau wedi bod yn gweithio'n rhannol, ac yn rhannol ar y cynllun saib (*furlough*). Mae'r busnes twristiaeth wedi ei daro'n galed gan yr ergyd yma, a bydd yn achosi tymor o dri gaeaf bron. Er hyn, ers dechrau Gorffennaf, mae Portmeirion wedi bod yn cychwyn ail-agor yn araf bach i ymwelwyr dyddiol a bythynnod hunanarlwyo, ac yn bwriadu agor y gwesty a'r bwytai ym mis Awst.

Beth am dy ddiddordebau di tu allan i fyd gwaith?
Rwyf wedi cymryd diddordeb mewn rygbi a phêl-droed erioed, ac yn ddiweddar, dwi 'di cychwyn beicio, rhedeg a nofio gan wneud ychydig o rasys triathalon. Mae'r cyfnod clo wedi bod yn gyfle gwych i wneud mwy o hyn, a thrio gwella fy amserau personol. Mae wedi bod yn braf manteisio ar yr amser i feicio, gyda'r ffyrdd yn wag, a thawel.

Beth sy'n gas gennyt ti?
Rydw i'n casáu gweld sbwriel yn cael ei ollwng ar lawr neu'r sbwriel sydd yn dod lawr yr afonydd, dinistrio ein hardaloedd hardd ac yn ddrwg i'r bywyd gwyllt.

Pwy fyddet ti'n eu gwahodd i gael swper efo chi draw yn Sgubor Wen?
Buaswn i'n gwadd Alun Wyn Jones, fel capten tîm rygbi Cymru ers blynyddoedd bellach, Tudur Owen am ychydig o hiwmor, a Barack Obama am sgwrs fwy dwys!

Beth ydi dy obeithion di am y dyfodol?
Dal i wneud fy ymarfer corff a chynyddu hwnnw os fydd amser, a dal i fwynhau amser gyda'r teulu, gan obeithio cael gwyliau dramor blwyddyn nesa!

Diolch yn fawr iawn, Ian

Ian a Sali, aelod newydd o'r teulu. Mae'n siŵr y byddwch chi sy'n adnabod Tecwyn, ei dad, yn gweld y tebygrwydd!

Oriau agor Swyddfa'r Post

Dydd Llun 9am–12pm, 3pm–5pm
Dydd Mawrth 9am–12pm, 3pm–5pm
Dydd Mercher 9am–12.30
Dydd Iau 9am–12pm, 3pm–5pm
Dydd Gwener 9am–12pm, 3pm–5pm
Dydd Sadwrn 9am–12.30

01824 790310

Noson ar yr Orient Express

Rhan Un

Mwynhewch yr *Orient Express*!' meddai'r porthor wrth inni gerdded tuag at Orsaf Victoria yn Llundain. Sut oedd o'n gwybod? Am ein bod ni mor smart am 8 y bore? Am ein bod ni'n cerdded yn erbyn llif o gymudwyr oedd yn dod allan o'r orsaf? Neu'r labeli ffansi ar ein cesys, efallai?

Y pacio oedd y peth mwyaf anodd i mi. Does dim llawer o le yng nghaban yr *Orient Express*, felly dim ond un hangyr o ddillad 'posh' min nos ac un cês bach dros nos oedd yn cael ei ganiatáu (fedrwch chi fyth orwisgo, medden nhw!); y bag 'molchi angenrheidiol, a dillad mwy 'cyfforddus' (ond *smart*) ar gyfer yr ail ddiwrnod ar y trên. Ta waeth, ar ôl i ni gofrestru yn Fictoria, chawson ni ddim gweld y cesys wedyn nes ein bod ni ar yr *Orient Express* yn Ffrainc.

Roedd Gorsaf Fictoria'n weddol dawel, a dilynon ni'r arwyddion i Blatfform 2 a Lolfa'r *Pullman*. Yma roedd yn rhaid i ni gofrestru'r holl fagiau a chael rhif ein seddau. Mi sylwes fod 'na wahanol syniade am y 'cod gwisgo'. Ro'n i wedi dod â gwisg reit neis (oedd yn medru ymestyn 'chydig gan fod lot o fwyd i ddod!) a chôt a sgarff i gyd-fynd â hi; a siwt oedd gan Ivan. Roedd rhai o'n cyd-deithwyr yn gwisgo dillad y 1920au, ac eraill wedi gwisgo dillad mwy cyfforddus. Roedd June Whitfield (o *Terry a June* a'r ffilmiau enwog y *Carry On*) yno gyda'i theulu – roedd ganddyn nhw hetiau pwrpasol!

Roedd rhan gyntaf y daith yn cynnwys brecwast a chinio yn un, ar drên y *British Pullman* i *Folkestone*. Enw ein carej trên ni oedd *Audrey*, a ddefnyddiwyd rywbryd gan y Frenhines, mae'n debyg. Roedd yn garej addurnol dros ben, paneli argaenwaith pren a chadeiriau breichiau cyfforddus. Roedd gan hyd yn oed y toiled baneli pren a llawr mosäig. (Sylwais fod un carej â'r enw Gwen, ond doedd hi ddim mor foethus ag *Audrey*!) Dechreuodd y pryd bwyd moethus efo *Bellini* bach, wedyn teisennau o bob math, ffrwythau, iogwrt, crympet,

Gwen ac Ivan Butler yn dathlu pen-blwydd Gwen mewn steil

wyau 'di sgramblo, eog mwg, cafiâr (iawn, ond doeddwn i ddim yn or-hoff o hwn), digonedd o goffi mewn cwpanau a soseri tsieina glas golau.

Roedd hi'n daith hyfryd drwy Gaint at yr arfordir, ac roedd band jas yn ein diddanu ni wrth i ni adael y trên *Pullman* yng ngorsaf Folkestone. Yna, mynd ar y bws mwyaf crand weles i erioed, a siampên am ddim wrth i ni deithio drwy dwnnel y Sianel. Gwiriwyd y ddau basbort, a gyrrwyd y bws i mewn i drên y *Chunnel* (braidd yn agos i'r ochrau). Teimlad braidd yn rhyfedd oedd eistedd mewn cerbyd oedd yn symud ond ddim yn symud chwaith! Yn fuan iawn, roedden ni yn *Calais* ac yn cael ein tywys i adran arbennig o'r orsaf.

Dyma lle'r oedd y *Venice Simplon Orient Express* yn ein disgwyl. Roedd band yn chwarae, a'r stiwardiaid yn eu lifrai'n ein haros o flaen y trên aur a glas. Wrth gwrs, mi gawsom ni amser i dynnu digon o luniau cyn mynd ar y trên! Roedd gan bob carej ei stiward personol ei hun – Enrico oedd ein stiward ni – ac arweiniodd o'r ffordd i'n caban ni, a chynnig mwy o siampên i ni! Caban braidd yn fach, ond del iawn, â phaneli pren. Mainc ar hyd un ochr, bwrdd bychan a lamp o dan y ffenest, stôl, cwpwrdd cornel i bwrpas efo sinc fach 'molchi a silffoedd y tu mewn. Uwchben hwn roedd ein cês dros nos yn daclus ar y rac, a'n bag siwtiau'n hongian ar fachyn.

Wedyn, dyma'r '*Dyn efo'r Iwnifform Orau'n y byd*' (glas a llinellau aur!) yn ein hysbysu pa

Noson ar yr Orient Express: parhad

gerbyd bwyta i'w ddefnyddio, a deud y byddem ni mewn cerbyd bwyta arall 'fory gan fod gwahanol awyrgylch ym mhob un. Roedden ni i fod yno'n brydlon am 6.30pm mewn dillad crand! Braidd yn fyr-rybudd, ond roedd hi'n well bwyta'n rhy gynnar na rhy hwyr. Sylweddoli fod Ffrainc awr o'n blaen ni, felly llai o amser fyth i baratoi! Roedd y caban mor gyfyng, roedd yn rhaid i un ohonon ni eistedd i lawr tra'r oedd y llall yn gwisgo neu'n 'molchi! O fewn hanner awr, roedd y ddau ohonon ni'n barod. Teimlo'n od nad oedd posib cael cawod, am nad oedd y cyfleusterau ar gael, dim ond un toiled (mewn marmor a phren gloyw) ar ddiwedd y coridor! Ond roedden nhw wedi paratoi llond bocs lledr o bethe 'molchi (cael cadw'r rhain!), felly doedden ni ddim yn hogle'n rhy ddrwg! Ta waeth, roedd pawb yn yr un cwch!

Doedd hi ddim yn hawdd trotian drwy'r carejis symudol yn fy 'sgidiau sodlau-uchel gorau, ond mi gyrhaeddon ni'r Cerbyd Bwyta *Lalique* mewn amser. Mae'n cael ei alw felly oherwydd y gwaith *Lalique* gwreiddiol yn y cerbyd. Roedd goleuadau wal rhyfeddol yn goleuo'r carej, ac roedd hyd yn oed y gwydrau ar y bwrdd o risial trwm a'r logo *VSOE* ar bob un.

Ymlaen â ni, gan glecian drwy'r ardaloedd gwledig tuag at Baris… a bwyta! Cynffonau cimychiaid a chafiâr (yr haen denau sydd o dan gynffon y cimwch – roeddwn i'n meddwl mai dim ond rhywbeth i atal y cimwch rhag llithro o gwmpas oedd hwn, ond hwn ydi'r cafiâr, wedi ei fflatio!), draenog y môr, haen o ryw fath o lysiau (neis iawn), yna sorbed lemwn. Ar ben hynny, daeth dewis helaeth o gawsiau a bisgedi. Tra oeddwn i'n meddwl y medren ni wneud efo rhywbeth melys, daeth gweinydd â chacen gaws llawn ffrwyth â channwyll ar y top, dan ganu 'Pen blwydd Hapus'! Ie, 60 oed heddiw, pen blwydd hapus i mi!

(i'w barhau)
Gwen Butler

Risêt mis Awst

Crymbl Ffrwythau a Chwstard Cartref

Popty 200°C (Ffan 180°C) / Nwy – 6. Amser Coginio – tua hanner awr

Cynhwysion:
Y llenwad
2 bwys (900g) o ffrwyth(au) haf o'ch dewis
3 owns (85g) o siwgr caster neu siwgr brown golau *muscovado*
Y crymbl
4 owns (115g) o flawd codi
4 owns (115g) o geirch (neu gnau cyll wedi eu malu'n fân)
6 owns (170g) o fenyn, wedi ei dorri'n giwbiau
4 owns (115g) o siwgr brown golau *muscovado*
Sinamon – pinsied
Gwneud y crymbl – gogrwch y blawd i fowlen ac ychwanegu'r ceirch (neu'r cnau cyll). Rhwbiwch y menyn i mewn i'r blawd efo'ch bysedd, ychwanegwch y siwgr a'r sinamon a'i gymysgu nes cael gwead llac fel briwsion bara (ond peidio â'i orweithio!)
Gwneud y llenwad – Rhowch y ffrwyth(au) a'r siwgr mewn dysgl weddol fas wedi ei hiro. Cymysgwch yn dda.
Rhowch y crymbl ar ben y ffrwythau, a'i lefelu. Coginiwch am tua hanner awr neu nes ei fod yn dechre brownio.
Cwstard Cartref
350ml o laeth (neu ½ llaeth a ½ hufen)
2 felyn wy
25g o siwgr caster
1 pod fanila ffres (neu ½ llwyaid o rin fanila)
Dull
Rhowch y llaeth (llaeth/hufen) a'r pod fanila mewn sosban dros dymheredd canolig, a'i gynhesu nes iddo ddechrau mudferwi. Tynnwch y pod fanila allan.
Curwch y ddau wy a'r siwgr efo llwy bren mewn bowlen. Yn ara deg, tywalltwch y llaeth (neu llaeth/hufen) i mewn gan gymysgu'n dda. Tywalltwch hwn i sosban lân, a'i ailgynhesu **ar wres isel**, gan ddal i'w droi efo llwy bren, nes iddo ddechrau twchu.

MWYNHEWCH!

Sgwrs dros y gwrych

Dwi'n siŵr fod llawer ohonoch fel fi wedi treulio llawer mwy o amser nag arfer yn yr ardd yn ystod y cyfnod clo, ac yn pitïo y rhai sydd heb ardd a'r rhai sydd yn byw mewn fflatiau yn y trefydd. Dwi'n siŵr eich bod wedi clywed llawer iawn gormod am Bys Pêr genna i erbyn hyn, felly dwi ddim am sôn amdanynt y tro yma, dim ond deud fy mod yn tyfu tipyn llai nac arfer eleni. Dwi'n dechrau callio, medde Olwen!

Un o'r rhesymau ydi fod y sioeau dros y wlad wedi cael eu gohirio oherwydd yr argyfwng. Edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesa' gan obeithio y bydd normalrwydd yn ôl. Mae ambell i sioe fach yn mynd i ffeindio'n anodd cario 'mlaen dwi'n siŵr, felly mi fyddant angen eu cefnogi yn fwy nac erioed.

Dwi wedi manteisio ar y cyfle i blannu mwy o lysiau eleni ac i drio llenwi'r rhewgell at y gaeaf ynghyd â chadw'r teulu i fynd gyda chyflenwad o bethau gwyrdd. Ond tydi tyfu llysiau ddim heb ei broblemau chwaith fel mae llawer ohonoch yn gwybod. Cawsom dywydd poeth anhygoel, wedyn plwc o dywydd oer ac yna y gwynt, a rŵan fel dwi'n sgwennu hwn, tywydd digon diflas. Un broblem fawr sydd genna i ydi malwod o bob llun a siâp. Dwi'n meddwl mai'r broblem fwyaf ydi'r gaeaf gwlyb tyner ofnadwy gawsom. Y tueddiad ydi estyn am y pelenni, ond diolch fod y rhai oedd yn cynnwys *metaldehyde* wedi cael eu tynnu oddi ar y farchnad i arddwyr. Mae'r rheini'n wenwyn i'r rhai sydd yn bwyta'r malwod marw, er enghraifft, adar, llyffaint, nadroedd ayyb.

Mae 'ne *belenni* gael rŵan sydd yn cynnwys *Ferric Phosphate* sydd yn cael eu hannog i arddwyr organig. Mae'r malwod yn eu bwyta nhw, stopio bwyta ac yn marw o fewn rhyw chwe diwrnod. Marwolaeth digon poenus, ynte? Maen nhw yn fwy saff i'w defnyddio, ond yn anffodus mae 'ne gynnwys arall yn y pelenni sef *Celadwyr* sydd yn lladd pryfed genwair.

Dwi wedi penderfynu cynnal rhyfel ar y malwod yn yr ardd trwy ddefnyddio dull hollol saff sef trapiau cwrw, ***ie cwrw***! Dwi wedi dal cannoedd. Mae hogle'r cwrw yn eu denu nhw i mewn ond dwi ddim yn siŵr os mai boddi ma' nhw neu feddwi!

Mae'r trapiau yn effeithiol am ryw dri neu bedwar diwrnod a gellir tolldi'r cynnwys ar y compost. Mae'n hawdd iawn gneud trapiau. Dwi'n defnyddio potie iogwrt plastig mawr neu garton llefrith bach. Y cwbwl sydd rhaid ei wneud ydi torri slot bach rhyw fodfedd a hanner wrth fodfedd, ar ddwy ochor ryw dri chwarter ffordd i fyny – ei roi yn y pridd rhyw fodfedd o ddyfnder, adio tua modfedd o gwrw a rhoi'r caead arno i arbed y glaw. Wrth gwrs mae 'ne ambell un yn deud eich bod yn denu mwy o falwod i'r ardd nag arfer oherwydd hogle'r cwrw, ond dwi'n ffeindio'r dull yn gweithio i mi. Mae planhigion mewn potie yn gofyn am ddull gwahanol, sef rhoi band copor o amgylch y potyn gan fod malwod yn casáu copor. Mae'n gweithio'n dda iawn ac yn para blynyddoedd.

Ffeithiau diddorol am falwod: mae gan bob un 90,000 o wyrion. Maen nhw yn gallu bwyta 40 gwaith eu pwysau mewn un diwrnod. Os bydd dwy falwen yn paru, mae'r ddau yn feichiog. Coeliwch neu beidio maen nhw yn gallu brathu, am fod ganddynt fwy na 27,000 o ddannedd. Maen nhw yn gallu dodwy rhwng 80 a 120 o wyau lawer gwaith mewn blwydd-yn.

Dwi ddim yn meddwl fod llawer o obaith i mi ddifa'r malwod i gyd yn yr ardd wrth ddar-llen y ffeithiau yna, ond dwi am gario ymlaen â'r rhyfel am y tro. Mi fuasai ambell un yn deud na difetha cwrw da ydw i!

John Rowlands

Profiadau ym Mhatagonia

Eleni ar 28ain o Orffennaf bydd hi'n 155 o flynyddoedd ers glaniad y Mimosa ym Mhorth Madryn ym 1865. Wrth feddwl am hyn mae hi'n deimlad anhygoel fy mod i wedi cael y cyfle i fyw a gweithio fel rhan o'r Gymdeithas Gymraeg sydd yn dal i ffynnu 8,000 o filltiroedd i ffwrdd o Gymru

Cefais fy mhenodi fel un o dri o Swyddogion Datblygu'r Gymraeg gan y Cyngor Prydeinig am flwyddyn ym 2018. Roedd y tri ohonom yn gweithio fel rhan o Gynllun Cymraeg Patagonia a gafodd ei sefydlu ym 1997. Mae'r Cyngor Prydeinig yn chwilio am bobl newydd a brwdfrydig i gymryd y sialens bob blwyddyn ond mae rhai Swyddogion yn dewis aros yn hirach na blwyddyn ac eraill yn dewis i aros yno yn gyfan gwbwl fel y Gwladgarwyr traddodiadol. Roedd hi'n fraint cael cyfarfod gyda'r bobl hyn sydd yn gweithio yn ddiflino i gadw'r iaith yn fyw yn y Wladfa fel rhan o'm swydd

Roeddwn i'n byw yn Nhrelew Dinas yng ngogledd-ddwyrain talaith Chubut, a enwyd ar ôl Lewis Jones, un o arweinwyr y Cymry cyntaf a gyrhaeddodd lannau Porth Madryn ym 1865. Roeddwn i'n ddigon ffodus i weithio gydag un o'i ddisgynyddion Luned Gonzalez yn ystod fy amser ym Mhatagonia. Cyfeirir yn aml at Luned fel un sy'n ymgorfforiad o'r Wladfa am iddi weithio'n ddiflino i sicrhau bod pobl yn deall hanes a diwylliant Cymreig yr ardal arbennig hon.

Te pnawn gyda'r grŵp darllen – mae Luned Gonzales yn eistedd wrth ben y bwrdd, o flaen y ffenest, a Glesni wrth ben arall y bwrdd.

Yn ddyddiol roeddwn i'n trafeilio ar y bws o Drelew i'r Gaiman i fy ngwaith ac fe gymerodd ychydig o amser i mi ddod i arfer gyda'r dirwedd wastad sych a'r creigiau gwynion yn y pellter – golygfeydd hollol wahanol i'r rhai a arferwn eu gweld ar fy ffordd i'm gwaith yn Nyffryn Clwyd. Cefais hefyd y pleser o wylio teuluoedd o betris llwydaidd, bwncathod yn hela ac ambell i Fara (anifail tebyg i ysgyfarnog) yn sboncian drwy'r llwyni gwydn. Wrth i'r golygfeydd hyn wibio heibio i mi drwy ffenestr y bws roedd teimlad o falchder ac edmygedd yn dod drosof yn aml wrth feddwl pa mor gryf a dewr oedd y Cymry cyntaf i benderfynu aros a chreu bywyd newydd iddynt eu hunain mewn gwlad mor wahanol i Gymru o ran tirwedd a thywydd.

Mae dros 5,000 o siaradwyr Cymraeg ym Mhatagonia ac mae'r ffigwr hwn yn tyfu gyda diolch i'r gwaith anhygoel mae'r athrawon yn y pedair ysgol Gymraeg yn ei wneud yn y Wladfa. Wrth gymryd hyn i ystyriaeth roeddwn i'n hynod gyffrous i glywed mai un o'r digwyddiadau cyntaf yr oeddem fel Swyddogion yn mynd i fod yn rhan ohono oedd seremoni agor dosbarth newydd sydd wedi cael ei adeiladu ar safle Ysgol Gynradd yr Hendre yn Nhrelew. Hefyd yn ystod ein hymweliad i Drevelin yn yr Andes fe gawsom edrych o gwmpas yr Ysgol Gynradd newydd sydd wedi cael ei hadeiladu yno yn 2016. Roedd estyniad wrthi'n cael ei adeiladu yn ystod ein hymweliad ac ar ôl iddo gael ei orffen bydd lle i 200 o blant yn yr ysgol sydd yn newyddion hynod galonogol. Roedd y profiadau hyn i mi yn brawf bod addysg Gymraeg yn y Wladfa ar ei hanterth ac yn gwneud i mi deimlo'n hynod bles i helpu gyda'r twf hyn.

Fel rhan o'm swydd fel athrawes a thiwtor y Gymraeg, roeddwn i'n gweithio yng Nghlwb Cymraeg Ysgol yr Hendre yn ogystal â dysgu oedolion yn Ysgol Feithrin yr Hendre yn y dref. Roedd hi'n hyfryd gallu dysgu oedolion a oedd mor frwdfrydig ac a oedd yn gweld pwysigrwydd mewn dysgu iaith leiafrifol fel Cymraeg

Profiadau ym Mhatagonia: parhad

a nifer ohonynt heb wreiddiau Cymraeg.

Roeddwn i hefyd yn cynnal Clwb Cymraeg ac yn dysgu plant blwyddyn 2 a 3 yn Ysgol Gymraeg y Gaiman. Un o fy hoff brofiadau o weithio yn y Gaiman oedd ymuno gyda'r ysgol gyfan ar ddiwedd y dydd yn y neuadd i ganu yr Anthem Gymraeg – 'Hen Wlad fy Nhadau'. Yn ogystal â hyn cefais y fraint o ddysgu Cymraeg i ddosbarthiadau oedolion ac i ieuenctid Gaiman yng Ngholeg Camwy sef yr Ysgol Gymraeg gyntaf i gael ei chodi yn y byd yn ôl ym 1906. Pan oeddwn i'n edrych ar arwyddair uniaith Gymraeg yr ysgol, 'Goreu Arf, Arf Dysg', roedd hi'n anodd credu fy mod i filoedd o filltiroedd i ffwrdd o Gymru yn Ne America.

Yn ogystal â gweithio yn y Gaiman a Threlew roeddwn i'n dal y bws unwaith y mis i Borth Madryn er mwyn cynnal gwersi Cymraeg a Nosweithiau Cymdeithasol a oedd o dan ofal trefnus Lorena Peralta. Wrth ddysgu a sgwrsio Cymraeg gydag oedolion o bob oed roedd hi'n hyfryd meddwl fy mod i'n cael bod yn rhan o Gymdeithas Gymraeg a oedd mewn tref mor arwyddocaol yn hanes y Cymry. Un profiad a fydd yn aros yn y cof o fod ym Mhorth Madryn oedd mynd gyda Lorena i ymweld â'r ogofau ar lan y môr lle yr oedd y Cymry cyntaf yn cysgodi ac yn byw ar ôl iddynt lanio yma oddi ar y Mimosa ym 1865. Roedd hyn yn brofiad dwys a theimladwy iawn.

Roeddem fel Swyddogion Datblygu'r Gymraeg hefyd yn cynnal gweithgareddau cymdeithasol ar ran Menter Patagonia. Trefnwyd nifer o weithgareddau difyr dros ben yn ystod y flwyddyn. Roedd y gweithgareddau yn gyfle i bobl gymdeithasu yn y Gymraeg y tu allan i´r ystafell ddosbarth ac i weld yr iaith fel iaith bob dydd. Trefnwyd nosweithiau amrywiol er mwyn sicrhau fod rhywbeth addas i bawb – o nosweithiau Cawl a Chân, cyflwyniadau gan fyfyrwyr a oedd wedi ennill ysgoloriaethau i ddod i'r Wladfa a chyngherddau gan griw yr Urdd, picnic 'Te yn y Grug' gyda'r Criw Darllen, a phnawn gwylio'r ffilm 'Poncho Mamgu' ar Fferm Llain Las y tu allan i'r Gaiman sef lleoliad gwreiddiol y stori. Roedd cymryd rhan yn y gweithgareddau yma yn hynod fuddiol i'r gymdeithas leol ac roedd y bwyd a'r gael megis Asado a chacennau di-ri yn wledd i'r llygaid ac i'r bol!

Mae'n siŵr hefyd eich bod chi i gyd wedi clywed am yr Eisteddfodau sydd yn cael eu cynnal yn y Wladfa yn flynyddol. Cefais y fraint o gymryd rhan mewn sawl Eisteddfod o Borth Madryn i'r Andes. Roeddem ni fel Swyddogion yn beirniadu ac yn cystadlu ein hunain yn y ddawns werin, cydadrodd a chanu gyda chôr y Gaiman ac roedd yn deimlad cysurus a chyfarwydd, er fy mod i mor bell i ffwrdd o fy nghartref.

Profiad dymunol arall a gefais oedd mynychu gwasanaethau a chyngherddau yng Nghapel Bethel y Gaiman a oedd yn un o'r capeli cyntaf i gael ei adeiladu yn y Wladfa ym 1884. Bydd y wefr o ganu ein hanthem Genedlaetholar ddiwedd y cyngherddau a chymanfa ganu mewn capel gorlawn yn aros yn y cof am flynyddoedd i ddod.

Mwynheais y profiad yn fawr a dydi pobl y Wladfa ddim yn dweud hwyl fawr yn aml 'Tan tro nesaf' maent yn ei ddweud a hoffwn feddwl yn fawr y bydd yna dro nesaf i ailymweld â'r wlad hynod hon fydd yn aros fel lle arbennig yn fy nghalon am byth.

Glesni Edwards

Glesni gyda disgyblion Coleg Camwy yn gosod arwyddion dwyieithog yn nhŷ cyntaf y Gaiman a adeiladwyd yn 1874 gan David D. Roberts

Gair gan y Rheithor

Yn rhifyn mis Mai Llais Llandyrnog, sgwennodd Wendy Grey Lloyd gerdd am 'ddisgwyl'. Roedd y 'disgwyl' newydd gychwyn. Doedden ni ddim yn gwybod be oedd yn ein haros yn y dyfodol a gorfu i ni ohirio ein cynlluniau i gyd. Er bod pethau'n dechrau dod yn ôl i drefn, rydym ni, mewn sawl ffordd, yn dal i ddisgwyl. Rydym ni'n gwybod, beth bynnag a ddigwydd yn y dyfodol, y bydd bywyd yn wahanol. Ac felly, rydym ni'n aros a gweld beth fydd hyn yn ei olygu i bob un ohonom ni.

Rydym ni wedi dysgu sgiliau newydd yn ystod y cyfnod clo, a falle mai disgwyl ydi un ohonyn nhw. Fel arfer, rydym ni bob amser ar frys, yn chwilio am y ciw cyflymaf yn yr archfarchnad, neu'n chwilio am y llwybr hawsaf ym mhob agwedd o fywyd. Erbyn hyn, rydym ni'n aros yn amyneddgar yn yr archfarchnad ac mae ein bywydau wedi arafu tipyn. Rydym ni wedi gweld caredigrwydd a chefnogaeth i'w ryfeddu, a rhaid i ni barhau i ddangos amynedd a dealltwriaeth wrth i ni addasu i'r 'normal' newydd.

Mae llawer wedi dysgu sgiliau newydd o ddefnyddio'r cyfrifiadur. Wrth weithio gartre neu gadw mewn cyswllt â theulu, roedd yn rhaid i ni feistroli galwadau fideo a chyfryngau cymdeithasol. I'r rheini sy wedi cyfarwyddo â *Zoom*, mae bod yn yr ystafell aros, fel petai, yn rhan o fod mewn cyswllt. Rhaid i chi ddisgwyl i bwy bynnag sy'n eich croesawu chi i ymuno â'r cyfarfod – y gwesteiwr! Ambell dro, golyga hyn eiliadau, ond wedyn, pan rydych chi'n ymuno â phwyllgor (e.e. Pwyllgor Cabinet Llywodraethol), gall deng munud fynd heibio cyn bod dim byd yn digwydd. Y tueddiad i'r diamynedd ydi cael llond bol o aros, a thrio chwilio am ffordd arall mwy sydyn o gysylltu. Dydyn ni ddim yn gallu gweld a ydi'r gwesteiwr yn ceisio cysylltu efo rhywun arall neu ein bod 'mewn ciw', a dim byd arall!

Yn y Beibl, ceisiodd nifer o bobl y dywedwyd wrthyn nhw am ddisgwyl amserau'r Arglwydd, gymryd yr awenau i'w dwylo eu hunain, i gael ateb cynt. Roedd rhai yn meddwl fod Duw wedi anghofio ei addewid, gan eu bod mewn amgylchiadau oedd yn eu hatal rhag cyflawni gorchmynion Duw. Addawodd Duw i Joseff fod ganddo gynllun iddo. Treuliodd Joseph nifer o flynyddoedd o galedi wrth deithio o'r cyfnod Côt Amryliw nes dod yn brif gynorthwywr Pharo. Roedd y ffordd yn llawn brad, caethwasiaeth a charchar cyn i Dduw wybod fod yr amser yn iawn. Achubodd Joseph genedl gyfan o newyn – hyd yn oed ei deulu ei hun, oedd wedi ei fradychu. Mae Duw'n achosi i bethau ddigwydd ar yr amser iawn, ac ni fydd yr amser cyn hynny'n ofer – mae'n baratoad i'r hyn sydd i ddod.

Rydym ni ar hyn o bryd yn paratoi i ailagor Eglwys Sant Tyrnog ar gyfer addoliad cyhoeddus a gweddi breifat. Ni fydd ar agor yn ddyddiol fel o'r blaen, ond rydym ni'n falch iawn ei bod yn ail-agor. Rydym ni wedi aros amser hir am ganiatâd i ail-agor. Ni fydd yn hollol yr un fath – pellter cymdeithasol a system unffordd yn ei lle, ond bydd hi'n braf cael bod yn ôl. Bydd pethau ychydig yn wahanol, ond mae'r Eglwys yn parhau i fod yn lle cysegredig, sanctaidd yng nghanol y pentre', a diolchwn i Dduw am yr heddwch a chysur a ddaw yn ei sgil. Fe gewch groeso cynnes.

'ond bydd y rhai sy'n pwyso ar yr ARGLWYDD yn cael nerth newydd. Byddan nhw'n hedfan i fyny fel eryrod, yn rhedeg heb flino a cherdded ymlaen heb stopio.' Eseia 40. 31

Gyda phob bendith
Val Rowlands

Cyngor Sir Ddinbych

Merfyn Parry

Manylion cyswllt:

Ffôn symudol: 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook

Ysbyty Cynorthwyol Llandyrnog yn y White House

Plasty deulawr ydi'r White House, Llangwyfan sydd ar ochr y ffordd rhwng Llandyrnog a chroesffordd Llangwyfan. Yn niwedd yr 1800au, hwn oedd Rheithordy plwyf Llangwyfan nes i'r eglwys ei werthu yn 1907.

Pan dorrodd y Rhyfel Mawr allan yn 1914, derbyniwyd milwyr ag anafiadau difrifol i ysbytai cyffredinol oedd ag offer pwrpasol. Fodd bynnag, sylweddolodd y Groes Goch, mewn partneriaeth ag Urdd Sant Ioan, y gellid darparu gwasanaeth pwysig i'r milwyr ag anafiadau llai difrifol mewn ysbytai cynorthwyol a chartrefi gwella.

Rhoddwyd benthyg White House gan Miss Mainwaring, y perchennog, er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn yn lleol. Agorwyd ysbyty Llandyrnog, fel y'i gelwid ar 31 Ionawr 1916 o dan reolaeth Mrs Rigby, Pentre Mawr ar gyfer 20 claf. Cawson nhw ofal gan feddygon a nyrsys cyflogedig, yn ogystal â chogyddion a garddwyr. Cafwyd hefyd nifer o wirfoddolwyr rhan-amser (yn enwedig merched) o'r gymuned leol.

This Certificate is presented by the Army Council, as a permanent record of their thanks, to be placed in the building which has been known and used as

Llandyrnog

Hospital for British sick and wounded during the Great War, 1914-1919.

Winston S. Churchill

The War Office,
London,
August, 1920.



Caewyd yr ysbyty yn 1919 ar ôl i'r Rhyfel orffen a'r claf olaf adael. Ym mis Awst 1920, cyflwynwyd tystysgrifau diolch, wedi eu llofnodi gan Winston Churchill, Ysgrifennydd Gwladol dros Ryfel ac Awyr, i dros 3,000 o neuaddau trefi, tai preifat, mawr a bach, ar draws y DU oedd wedi eu haddasu'n Ysbytai Cynorthwyol, i'w cadw fel cofnod parhaol. Mae'r dystysgrif yn dal i fod yn y White House hyd heddiw, union gan mlynedd yn ddiweddarach.

Os ydi'r erthygl fer hon wedi codi awydd arnoch chi am ragor o wybodaeth am Ysbyty Cynorthwyol Llandyrnog neu unrhyw agwedd o effaith y Rhyfel Mawr yn yr ardal, falle byddech chi â diddordeb darllen llyfr *Cymdeithas Hanes Lleol* Llandyrnog & Llangwyfan – Llandyrnog & Llangwyfan *Y Rhyfel Mawr* 1914 – 18 *The Great War* sydd ar gael yn Swyddfa Bost Llandyrnog; Siop Elfair, Rhuthun; Llyfrgelloedd Dinbych a Rhuthun, neu anfonwch e-bost at llangwyfanhistory@hotmail.com. Pris £14.

Rona Aldrich

Y Peunesau crwydrol!

Rhyw fore Sul oedd hi ac yn rhy wlyb i fod allan yn yr awyr agored, ac mi sylwes i ar rywbeth od iawn yn yr ardd. Na, dim '*Russell Crowe*' y Gigfran Fach sy'n arfer patrolio'r buarth oedd yno, ond dau aderyn anferth yn torsythu'n falch - be oedden nhw tybed? Mi wnes i Gwglo – Peunesau!

Adar mawr llwydaidd ydi'r rhain, â gyddfau gwyrdd symudliw a chribau od, a phlu siâp sbatiwla stiff – tebyg iawn i helmed canwriad Rhufeinig. Roedden nhw'n gwneud sŵn 'bib-bib' fel ceir clowns mewn syrcas! Diflannodd fy ieir yn ôl i'w cytiau, wedi cael braw eu henaid efo'r 'pethe diarth' yma – o ble'r oedden nhw wedi dod tybed?

Roedden nhw'n eitha bodlon yn yr ardd, nes i'r cŵn eu dychryn. Wel, dyma nhw'n hedfan i dop y tŷ, ac aros yno tan y bore. Fore trannoeth, plymio i lawr – bwlio fy ieir – a bwyta eu brecwast nhw i gyd!

Roedd yn rhaid i mi ddod o hyd i'w perchnogion. Mae *Facebook* a gair gan hwn a'r llall yn medru gwneud gwyrthiau – ac mi gefais afael arnyn nhw! Rhywsut rhywfodd, roedden nhw wedi hedfan o Gilcain, dros Glawdd Offa, ac i lawr ata i. Felly, roedd rhaid eu dal nhw – job anodd iawn! Roedden nhw'n hedfan mor uchel â tho'r tŷ a'r dderwen fawr gerllaw. Mi gefais dipyn o lwc wrth fwydo'r ieir gyda'r nos. Cychwynnodd un fwyta allan o'm llaw i, ac, yn wyrthiol, mi gerddodd i mewn i'r cwt ieir! Erbyn hynny, roedd y perchennog wedi cyrraedd, a'r cynllun oedd ceisio denu'r ail beunes i'r cwt ieir efo bisgedi 'cwstard hufen' – eu hoff fwyd !! Ar ôl awr o 'sibrwd yn glên wrth y beunes' – dim lwc. Roedd y beunes yn y cwt yn dechre anesmwytho erbyn hyn. Gadawyd hi'n rhydd, a rhoi cynnig arall arni'r noson ganlynol. Y cynllun y tro hwn oedd eu dal efo hen rwyd pêl-droed – tacteg fanwl filitaraidd.

Diwrnod 3 – noson wlyb – yn barod efo fy misgedi siocled Bahlsen (y cwbwl oedd gen i ar ôl y Dolig!) ac mi wnes i lwyddo i ddenu'r ail beunes i mewn i'r cwt ieir. Llwyddiant o'r diwedd – dim angen rhwyd!

Mi glywais wedyn bod paun yn dod atyn nhw – gobeithio y byddai hynny'n help i'w cadw nhw rhag crwydro! OND NA, mi aeth y ddwy beunes ar goll ddyddiau'n ddiweddarach er bod y paun wedi cyrraedd! Gwelwyd nhw yng Nghoedwig Llangwyfan, ond trwy lwc a rhyddhad i'r perchnogion, a'r paun (wrth gwrs), mi aethon nhw'n ôl adre!

Felly, os ddigwyddwch chi edrych at Fryniau Clwyd ar fore Sul gwlyb, falle y gwelwch chi beunesau'n hedfan i gyfeiriad y pentre'! Os gwelwch chi nhw, byddwch yn barod efo digon o fisgedi *Bahlsen* yn eich poced!

Ôl-nodyn – clywed bod rhywun wedi gweld peunesau uwchben coedwig Llangwyfan – felly, mae'r saga'n parhau …

Hazel Wright

James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa Westminster: 0207 2194606

GLYN EVANS AUTOCLINIC
Canolfan Trwsio Ceir
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA

GWAITH YSWIRIANT
TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU
CEIR I'W BENTHYG
GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR
01745 815141
07808970364

Y radio'n achub y dydd!

Mae'n ddigon hysbys erbyn hyn nad yw'r Eisteddfod wedi bod yn Nhregaron eleni. Yn ei lle, mae'r Eisteddfod wedi creu gŵyl amgen, AmGen, sydd wedi cyflwyno gweithgareddau ar ystod eang o gyfryngau ers 18 Mai eleni. Cafwyd yr Eisteddfod AmGen gyntaf erioed yn ystod wythnos gyntaf y mis hwn.

Ond nid dyma'r tro cyntaf i'r Eisteddfod orfod troi at y cyfryngau torfol i sicrhau ei llwyfannu. 80 mlynedd yn ôl, yn 1940, y bwriad oedd ei chynnal ym Mhen-y-bont ar Ogwr ond penderfynodd y pwyllgor lleol ei gohirio oherwydd ar y pryd, yno roedd y ffatri fwyaf yn y byd a oedd yn gwneud bomiau. Roedd hon yn cyflogi 37,000 o bobl ac yn darged posibl i fomiau'r Almaen. Ar gais Cyngor yr Eisteddfod, cynigiodd Aberpennar gartref i'r eisteddfod.

Ond wrth i'r rhyfel ddwysáu, sylweddolodd awdurdodau'r eisteddfod bod y perygl yn ormod. Roedd hi'n rhy beryglus i filoedd o bobl ddod at ei gilydd mewn cwm cul a dod yn darged posibl i'r gelyn. Hefyd, roedd anawsterau o ran cludiant a llety'n anochel.

Felly gyda chalon drom penderfynwyd gohirio'r eisteddfod a derbyniodd y Cymry hyn fel un o anawsterau'r rhyfel. Ond ni fyddai'n cael ei gohirio'n llwyr – cytunwyd i gyhoeddi'r cyfansoddiadau llenyddol a cherddorol, cyhoeddi enillwyr yn y wasg, a rhoi gwobrau.

Yna daeth y BBC i'r fei. A allai Cymry'r BBC helpu'r eisteddfod drwy ei darlledu? Felly byddai miliynau (yn ôl y *Radio Times*!) yn gallu gwrando arni o ddiogelwch eu cadeiriau esmwyth. Cyfarfu cynrychiolwyr Cyngor yr Eisteddfod a'r BBC i drafod y cynllun. Dyma gyhoeddiad yr Archdderwydd Cynan ar y radio:

"Yn y cyfrwng hwn y daeth swyddogion y BBC ymlaen gyda chynnig rhagorol, a awgrymwyd i gychwyn gan Mr T. Rowland Hughes, ac a dderbyniwyd yn llawen ac yn ddiolchgar gan ein Pwyllgor fel gwasanaeth cenedlaethol gwirioneddol. Y cynnig mewn gair oedd hyn: bod cydbwyllgor bychan o gynrychiolwyr y Cyngor a'r BBC i gydweithredu ar gynllun i geisio achub hynny a ellid o raglen Eisteddfod un naw pedwar dim drwy gyfrwng y radio."


This Year's Eisteddfod

RADIO TO THE RESCUE!

All Welsh people, wherever they are, must have been sorry when ... help the Eisteddfod? Yes, they could. They could put it on the

PRICE TWOPENCE

August 4 — 10

RADIO TIMES

JOURNAL OF THE BRITISH BROADCASTING CORPORATION

(INCORPORATING WORLD-RADIO)

Viscount Gort

ALSO THIS WEEK

Edith Evans and Michael Redgrave

The Railways at War

'The Blue Bird'

National Eisteddfod

Syd Walker and Sidney Hulls

Naughton and Gold

Richard Tauber

'Music-Hall'

©BBC

Neilltuwyd bron y cyfan o'r cyfnodau a oedd ar gael yn yr *Home Service* ar gyfer darlledu yn y Gymraeg i'r Eisteddfod. Darlledwyd eitemau o stiwdio Bangor am 5.05 y pnawn, ar ôl y newyddion yn Gymraeg am 5 o'r gloch, ac fe'u rhestrwyd yn Gymraeg yn y *Radio Times*.

Yr amserlen, 5–10 Awst (wedi'i dyfynnu fel yr oedd yn y cylchgrawn):

Dydd Llun: 'Agor yr Eisteddfod yna beirniadaethau ac enwau'r buddugwyr yn Adran y Ddrama'

Dydd Mawrth: 'Beirniadaeth yr englyn. Pwy a enillodd o 156?'

Y radio'n achub y dydd!: parhad

Does dim gwybodaeth am yr enillydd.
Dydd Mercher: 'Gwasanaeth gosber arbennig wythnos yr Eisteddfod. Y Cyn-archdderwydd Elfed i offrymu'r gweddïau, yr Archdderwydd Crwys i ddarllen rhan o'r Ysgrythur.'
7.30: 'Address by The Right Hon. D. Lloyd George, O.M., M.P followed by
7.40 The adjudication, illustrated by recordings, of the Chief Male Voice Choral competition.'

Roedd darlledu yn ystod y rhyfel yn gwahardd gweithredu'r Rheol Uniaith a ddaeth i rym yn 1937, felly roedd araith David Lloyd George yn Saesneg. Un dyfyniad cofiadwy o'r araith yw 'This is the day of the agony of small nations'.
Dydd Iau: 'Rhai beirniadaethau, gan gynnwys Beirniadaeth y Bryddest gan yr Athro W.J. Gruffydd. Pwy fydd bardd y goron?'

Yn anffodus, nid oedd neb yn deilwng.
Dydd Gwener: 'Beirniadaethau ac enwau'r buddugwyr yn Adran Llenyddiaeth, ac Adran Celfyddyd a Chrefft.'

Enillydd y fedal ryddiaith oedd T. Hughes Jones am ei nofel (neu 'stori fer hir') *Sgweier Hafila*. Kate Roberts oedd y beirniad, a defnyddiodd y *genre* newydd hwn – y stori fer hir – yn ddiweddarach yn ei gyrfa llenyddol (e.e. *Te yn y Grug*).
5.20: 'The Cardiff Snowflakes Choir in an Eisteddfod Week programme of songs.'
Dydd Sadwrn: 'Beirniadaethau ac enwau'r buddugwyr yn Adran Barddoniaeth [*sic*]. Beirniadaeth yr Awdl gan Griffith John Williams. Pwy fydd Bardd y Gadair?'

Y bardd a gadeiriwyd oedd T. Rowland Hughes am ei awdl *Pererinion*. Roedd Hughes yn cynhyrchu rhaglenni nodwedd y BBC yng Nghaerdydd. Ar ôl dim ond pum mlynedd yn ei swydd, y sôn yn *The Guardian* oedd ei fod yn un o'r cynhyrchwyr rhaglenni radio gorau ym Mhrydain.

Ewch i genome.ch.bbc.co.uk i ddarllen copïau o'r Radio Times *a gyhoeddwyd rhwng 1923 a 2009 – diddorol iawn!*

At sylw cefnogwyr Lerpwl



Gan fy mod wedi bod yn golygu a darllen proflenni llyfrau am y tair blynedd diwethaf, penderfynais roi cynnig ar sgwennu fy llyfr fy hun. Mae'r llyfr wedi ei gyhoeddi erbyn hyn ac rydw i'n gobeithio y bydd gwerthiant da iddo! Fel awdur, gallaf gael copïau'n union-gyrchol o'r dosbarthwr am hanner pris, felly rydw i'n rhoi'r un cynnig i ddarllenwyr *Llais Llandyrnog Voice*. Os ydych chi am gopi, cysylltwch â mi os gwelwch yn dda gyda'ch cyfeiriad, ac fe wna i'n siŵr eich bod yn derbyn un. Fe wna i'n siŵr hefyd bod hyn yn cael ei wneud yn ddiogel.

Y pris arferol ydi £19.99, ond gallaf gynnig copi clawr caled am £10. Os oes angen, gallaf ei arwyddo i chi hefyd! Ffoniwch neu tecstiwch 07799 570549 neu e-bostio ivanbutler897@btinternet.com. Cofiwch adael i mi wybod lle'r ydych chi'n byw.

Diolch yn fawr
Ivan Butler



Bwganod brain Llandyrnog

Llongyfarchiadau i bawb a diolch i Gyfeillion Ysgol Bryn Clwyd am drefnu'r gystadleuaeth

Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu at y rhifyn hwn o'r *Llais*!